Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

| |
|---|
| **Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl417 |

| |
|---|
| **Amseru:** Unigol |

| |
|---|
| **Teitl:** Cyflogi'r Athro Stan Gilmour fel hwylusydd annibynnol ar gyfer gweithdy Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) sy'n ymwneud â chysylltu data'r heddlu. |
| **Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Cyllid |

**Crynodeb Gweithredol:**

Mae gweithdy wedi'i drefnu ar gyfer dydd Gwener 28 Tachwedd mewn perthynas â'r prosiect parhaus i roi data plismona yng nghronfa ddata SAIL. Cynhelir y gweithdy hwn ym Mhrifysgol Abertawe. Bydd y gweithdy'n rhoi cyfle i Swyddogion Diogelu Data Heddluoedd Cymru a chynrychiolwyr o SAIL drafod pryderon y Swyddogion Diogelu Data ac ymateb SAIL, gyda chymorth Uwch Berchnogion Risg Gwybodaeth yr Heddlu ac arbenigwyr pwnc. Arweinir y gweithdy gan hwylusydd annibynnol.

Mae'r Athro Stan Gilmour wedi'i argymell fel hwylusydd gan yr Athro Paul Taylor, Prif Ymgynghorydd Gwyddonol ar gyfer Plismona, oherwydd ei brofiad a'i arbenigedd o ran strwythurau llywodraethu a rhannu data ar y cyd.

**Argymhelliad:**
Cyflogi'r Athro Stan Gilmour fel hwylusydd annibynnol ar gyfer y gweithdy. Ni ddisgwylir i'r costau ar gyfer ei gymorth fod yn fwy na £10,000.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 21/10/2025**